# Diwrnod Cofio'r Holocost 2023
# Thema'r weledigaeth

YMDDIRIEDOLAETH DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST

*Dysgu o hil-laddiad - ar gyfer dyfodol gwell*

# Pobl Gyffredin

'Beth sy'n annormal yw'r ffaith fy mod i'n normal. Fy mod i wedi goroesi'r Holocost ac wedi mynd ymlaen i garu merched hardd, i siarad, ysgrifennu, bwyta tost ac yfed te a byw fy mywyd – dyna sy'n annormal.'

**Elie Wiesel, goroeswr yr Holocost**

## Cyflwyniad

Mae hil-laddiad yn cael ei hwyluso gan bobl gyffredin. Mae **pobl gyffredin** yn anwybyddu beth sy'n digwydd, yn credu propaganda, yn ymuno â chyfundrefnau sy'n llofruddio. Ac nid yw'r rhai sy'n cael eu herlid, eu gorthrymu a'u llofruddio mewn hil-laddiad yn cael eu herlid oherwydd troseddau y maent wedi'u cyflawni – maent yn cael eu herlid am y rheswm syml eu bod yn **bobl gyffredin** sy'n perthyn i grŵp penodol (e.e. Roma, cymuned Iddewig, Tutsi).

Roedd **pobl gyffredin** wedi cymryd rhan ym mhob agwedd ar yr Holocost, yn yr erledigaeth o grwpiau eraill gan y Natsïaidd, ac yn yr hil-laddiadau yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur. **Roedd pobl gyffredin** yn gyflawnwyr, yn wylwyr, yn achubwyr, yn dystion - ac roedd **pobl gyffredin** yn ddioddefwyr.

Ym mhob hil-laddiad, roedd y rhai a dargedwyd yn wynebu dewisiadau cyfyngedig – 'dewisiadau di-ddewis' (Lawrence Langer), ond ym mhob hil-laddiad mae gan y cyflawnwyr ddewis, ac mae gan **bobl gyffredin** ddewis. Weithiau, roedd y dewisiadau hyn yn gyfyngedig hefyd, weithiau roedd yn rhaid gwneud penderfyniadau a oedd yn bygwth bywyd. A **phobl gyffredin** oedd y rhai a wnaeth y penderfyniadau dewr i achub, cuddio neu sefyll ar eu traed. Ond roedd **pobl gyffredin** wedi gwneud penderfyniadau i anwybyddu'r hyn oedd yn digwydd o'u cwmpas hefyd, gwylio heb ymyrryd, a gadael i'r hil-laddiad barhau.

Hefyd, mae yna bobl eithriadol ym mhob hil-laddiad, pobl hynod ac anarferol a wnaeth bopeth posibl i helpu ac achub eraill, ac ym mhob hil-laddiad roedd yna bobl eithriadol eraill, a wnaeth bopeth posibl i achosi niwed, erlid a llofruddio.

Fodd bynnag, mae ein thema eleni yn canolbwyntio ar y **bobl gyffredin** a oedd yn gadael i hil-laddiad ddigwydd, y **bobl gyffredin** a oedd yn mynd ati i gyflawni hil-laddiad, a'r **bobl gyffredin** a gafodd eu herlid.

Hefyd, bydd ein thema yn ein hysgogi i ystyried sut mae **pobl gyffredin**, fel ni ein hunain, yn gallu gwneud mwy nag y byddem yn ei feddwl i herio rhagfarn heddiw.




Llun: darlun o *Irmina* gan Barbara Yelin
Credyd: *SelfMadeHero*
© Barbara Yelin

Er mwyn archwilio thema **pobl gyffredin**, byddwn yn edrych ar rai categorïau penodol (cyflawnwyr, gwylwyr, achubwyr). Mae'n bwysig nodi nad oes modd dosbarthu pobl i un o'r categorïau hyn bob amser, a bod yna amrywiaeth o ymatebion i'r hyn oedd yn digwydd o'u cwmpas o fewn categorïau, sectorau, swyddi a chyfrifoldebau, fel y gwelir yn yr enghraifft o weithwyr rheilffordd yn yr Holocost:

**ENGHRAIFFT**

### Pobl Gyffredin: Gweithwyr rheilffordd yn ystod yr Holocost

*'Pan oeddwn i'n blentyn pump oed, fe allwn i sefyll ar ymyl y llannerch lle'r oedd y trenau'n cael eu llwytho. Roedd pobl fel sardins yn y wagenni pren hynny. Ac roedd y bobl a oedd yn eu llwytho – dynion rheilffordd oedden nhw, doedden nhw ddim yn edrych yn wahanol iawn i ddynion y rheilffordd sy'n gwirio fy nhocynnau heddiw – roedden nhw'n edrych fel pobl gyffredin.'*

Dr Martin Stern MBE, goroeswr yr Holocost
**Darllenwch fwy am Dr Martin Stern MBE yma**

Roedd y gweithwyr rheilffordd hyn yn edrych mor gyffredin, ac yn wir, pobl gyffredin oedden nhw, o bob rhan o Ewrop a oedd wedi'i meddiannu gan y Natsïaid, ac roeddent yn gweithio fel gyrwyr trenau, tocynwyr, a dynion signal. Roedd rhai o'r bobl gyffredin hyn yn gyflawnwyr, yn gyrru pobl Iddewig i wersylloedd crynhoi; roedd eraill yn achubwyr, yn cuddio Iddewon.

Roedd Henryk Gawkowski yn docynnwr a roddodd dystiolaeth i Claude Lanzmann ar gyfer ei ffilm, Shoah. Amcangyfrifodd Henryk ei fod wedi cludo tua 18,000 o Iddewon i wersyll difodi Treblinka. Amcangyfrifir bod 800,000 o bobl wedi cael eu llofruddio yn Treblinka. Dywedodd Henryk ei fod wedi yfed fodca drwy'r amser am na allai oddef ei waith heb wneud hynny. **Darllenwch fwy am Henryk Gawkowski yma.**

Fe wnaeth dau gant o weithwyr rheilffordd o Lithwania lofruddio dros 60 o ddynion Iddewig ar fferm ym mis Awst 1941, gan eu saethu i bwll a oedd wedi ei gloddio gan garcharorion rhyfel o Rwsia. Roedd y gweithwyr rheilffordd wedi gosod moduron mawr wrth ymyl y pwll fel na fyddai Iddewon eraill a oedd yn cael eu cadw mewn ysgubor gyfagos yn gallu clywed sŵn y saethu (o dystiolaeth gan Abe Leson). **Darllenwch dystiolaeth Abe Lison yn yadvashem.org.**




Mae aelod o'r SS Almaenig yn goruchwylio'r gwaith o gludo Iddewon ar drenau yn ystod gweithred alltudio yn ghetto Krakow. ©*Amgueddfa Goffa'r Holocost yr Unol Daleithiau, trwy garedigrwydd Archiwum Dokumentacji Mechanicznej*

Roedd Léon Bronchart yn weithiwr rheilffordd o Ffrainc a gafodd ei anrhydeddu'n unigolyn Cyfiawn Ymysg y Cenhedloedd am helpu ei gymdogion Iddewig, cuddio Iddew, a gwrthod gyrru trên a oedd yn cludo carcharorion gwleidyddol. **Darllenwch fwy am Léon Bronchart yma.**

Roedd Marcel Hoffman yn un o 24 o weithwyr rheilffordd o Ffrainc a helpodd i achub plant Iddewig rhag cael eu halltudio ym mis Medi 1942. **Darllenwch fwy am Marcel Hoffman yma.**

**Mae'r gweithwyr rheilffordd hyn yn arddangos y sbectrwm o brofiadau a gafodd pobl gyffredin yn ystod hil-laddiad.**

## Cyflawnwyr fel pobl gyffredin

Roedd cyflawnwyr yn **bobl gyffredin**, mewn sefyllfa o rym, a fanteisiodd ar set o amgylchiadau, neu a greodd set o amgylchiadau, a oedd yn caniatáu iddynt gamddefnyddio eu pŵer a gwahaniaethu, erlid a llofruddio pobl.

Hefyd, mae llawer o astudiaethau wedi archwilio sut oedd rhai cyflawnwyr yn **bobl gyffredin** nad oeddent mewn sefyllfa o rym. Wrth wylio achos llys Adolf Eichmann, bathodd Hannah Arendt yr ymadrodd ‘cyffredinedd drygioni’ sy’n golygu nad yw gweithredoedd drwg yn cael eu cyflawni gan bobl ddrwg o reidrwydd, ond eu bod yn ganlyniad i **bobl gyffredin** yn ufuddhau i orchmynion.

Roedd y plismyn a oedd yn casglu a chrynhoi dioddefwyr, yr ysgrifenyddion a oedd yn teipio cofnodion hil-laddiad, a’r deintyddion a’r meddygon a oedd yn dewis a dethol unigolion yn **bobl gyffredin**. Hefyd, roedd cymdogion â machetes yn Rwanda, ac athrawon ysgol a oedd yng ngwarchodluoedd y gwersylloedd crynhoi yn Bosnia yn **bobl gyffredin**.

Yn ôl Jean Louis Mazimpaka, un o oroeswyr yr hil-laddiad yn erbyn y Tutsi yn Rwanda:

*‘Pan ddechreuodd y llofruddiaethau, roedd pawb yn cymryd rhan mewn gwirionedd, gan gynnwys ein cymdogion a’n ffrindiau, ond doedden ni ddim yn ymwybodol o raddfa fawr y lladd.’*

**Darllenwch hanes bywyd Louis Mazimpaka yma.**

## Pobl gyffredin yn cael eu herlid

*‘Efallai bydd pobl yn meddwl nad oes ganddyn nhw unrhyw gysylltiad â’m hanes. Ond gallai beth ddigwyddodd i mi, ddigwydd iddyn nhw – ac i bobl fel chi. Efallai ei bod yn rhy anodd ei gredu, ond dyw hyn ddim yn digwydd i ddieithriaid sy’n byw yn bell i ffwrdd. Dim ond person cyffredin ydw i. Gall y pethau ofnadwy hyn ddigwydd i bobl fel ni.’*

Kemal Pervanić, goroeswr, Bosnia

**Darllenwch hanes bywyd Kemal Pervanić yma**

Roedd dioddefwyr hil-laddiad yn **bobl gyffredin**. Yn syml iawn, nid oedd eu herlidwyr yn hoffi elfen o’u hunaniaeth, ac roedd hynny’n eu gwneud yn darged ar gyfer erledigaeth. Weithiau, nid oedd rhai aelodau o’r grŵp dioddefwyr yn ystyried eu hunain yn aelodau o’r grŵp dioddefwyr hyd yn oed, ond y cyflawnwyr a oedd yn diffinio’r rheolau. Roedd y cyflawnwyr yn gallu penderfynu pwy fyddai’n cael ei erlid ar sail y paramedrau o’u dewis, gan gynnwys elfennau tybiedig yn hytrach nag elfennau gwirioneddol o hunaniaeth rhywun.

Mae goroeswyr yn cael eu portreadu fel unigolion eithriadol yn aml. Fodd bynnag, mae’n bwysig cofio eu bod wedi goroesi’r gweithredoedd mwyaf erchyll nid o reidrwydd oherwydd eu bod yn eithriadol, ond yn aml oherwydd cymysgedd o lwc, sgiliau, amgylchiadau, neu weithredoedd pobl eraill.

Ac yn dilyn hil-laddiad, mae goroeswyr yn byw bywydau cyffredin, gan ymdopi â’r un heriau bob dydd â gweddill y boblogaeth. Maen nhw’n bobl gyffredin yn ein cymunedau: staff archfarchnadoedd, meddygon, rhieni, athrawon.

Mae’n rhy anodd i rai goroeswyr siarad am eu profiadau, ond mae goroeswyr eraill - o hil-laddiadau gwahanol - wedi llwyddo i ddatblygu gallu eithriadol i drafod eu profiadau, gan ddod yn siaradwyr, yn addysgwyr, yn gynrychiolwyr ac mewn rhai achosion yn haneswyr. Maen nhw’n gallu rhannu eu tystiolaeth hyd yn oed pan fydd yn anodd gwneud hynny. Mae’r goroeswyr hyn wedi sylweddoli y byddai pobl eraill yn elwa o glywed eu profiad personol o’r hyn sy’n digwydd pan fydd **pobl gyffredin** yn troi yn erbyn **pobl gyffredin** eraill oherwydd pwy ydyn nhw.

## Achubwyr fel pobl gyffredin

Hefyd, mae achubwyr yn cael eu portreadu fel pobl eithriadol, neu oruwchddynol yn aml, pobl sydd â dewrder a sgiliau anhygoel. Gall hyn fod yn wir mewn rhai achosion, ond mae llawer o achubwyr yn disgrifio eu hunain mewn termau syml iawn, gan dynnu sylw at yr amgylchiadau a arweiniodd atynt yn achub eraill.

Weithiau roedden nhw'n gallu darparu bwyd i bobl eraill, weithiau roedden nhw'n cuddio pobl. Roedden nhw'n **bobl gyffredin** a wnaeth bethau **eithriadol,** gan beryglu eu bywydau, eu bywoliaeth, a'u teuluoedd i helpu eraill.

Fe wnaeth Syr Nicholas Winton, brocer stoc ifanc, achub 669 o blant o Tsiecoslofacia, gan ddod â nhw i'r DU a'u hachub rhag erchyllterau'r Holocost.

Meddai:

*'Pam ydych chi'n gwneud môr a mynydd o hyn? Y cwbl wnes i oedd helpu ychydig; roeddwn i yn y lle iawn ar yr adeg iawn.'*

**Darllenwch hanes bywyd Syr Nicholas Winton yma.**



Syr Nicholas Winton, a achubodd 669 o blant o Tsiecoslofacia yn ystod yr Holocost
© Matej Divizna / Getty

## Pobl gyffredin fel gwylwyr

Nid yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw dan gyfundrefn waedlyd yn cyflawni rôl weithredol mewn hil-laddiad. Nid ydynt yn dod yn gyflawnwyr nac yn achubwyr. Maen nhw'n gadael i'r hil-laddiad ddigwydd o'u cwmpas, ac nid ydynt yn gwneud unrhyw beth i gyfrannu ato, neu unrhyw beth i'w herio, ei atal na'i rwystro, fel y dengys y ddelwedd hon o'r nofel graffig *Irmina* gan Barbara Yelin:




*Credyd llun: SelfMadeHero © Barbara Yelin*

Er bod y thema ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2023 yn canolbwyntio ar **bobl gyffredin**, gellir ymestyn hyn i gynnwys lleoliadau neu safleoedd cyffredin. Mae hil-laddiad yn weithred allan o'r cyffredin sy'n tarfu ar drefn naturiol pethau, gan herwgipio lleoedd cyffredin a'u pwrpas gwreiddiol. Yn ystod hil-laddiad, mae pobl yn troi'r lleoliadau cyffredin hyn yn safleoedd sy'n hwyluso hil-laddiad. Mae ysgolion, ysbytai, cartrefi hen bobl, adeiladau crefyddol, coedwigoedd a chaeau wedi cael eu defnyddio a'u camddefnyddio fel gwersylloedd cadw, safleoedd cadw, ac fel safleoedd llofruddiaeth hyd yn oed trwy gydol yr holl hil-laddiadau.

Yn yr un modd, mae gwrthrychau cyffredin yn mabwysiadu ystyron newydd, gan droi'n dystiolaeth bosibl o hil-laddiad, neu'n symbol o brofiad; cesys dillad yn cynrychioli plant a anfonwyd i ffwrdd gan eu rhieni i ddiogelwch fel rhan o'r Kindertransport, wardrob gyffredin Vali Racz yn dod yn lle cuddio **(dysgwch am wardrob Vali yma** . Archwiliwch rai arteffactau yn ein **hadnodd Dyddiau i'w Cofio.**

*Llun: oriawr a wisgwyd gan lawer o ddynion a bechgyn Bosniaidd a lofruddiwyd yn ystod yr hil-laddiad yn Bosnia. Mae'r oriawr yn ymddangos yn ein hadnodd Dyddiau i'w Cofio. Ffotograffiaeth gan Abi Carter.*



## Heddiw

Rydym i gyd yn **bobl gyffredin** heddiw sy'n gallu gwneud pethau eithriadol. Gall pob un ohonom wneud penderfyniadau i herio rhagfarn, gwrthwynebu casineb, codi llais yn erbyn erledigaeth ar sail hunaniaeth, a siopa mewn ffordd gyfrifol.

Hefyd, **pobl gyffredin** sy'n gyfrifol am gynnal Diwrnod Cofio'r Holocost, am arwain digwyddiadau coffáu cymunedol, ac am gynorthwyo ac annog pawb o'u cwmpas i gymryd rhan mewn prosiectau cofio ac addysg.

## Darllen Pellach

Yn ogystal â'r dolenni yn y papur hwn, argymhellir y canlynol:

- *Irmina* gan Barbara Yelin **(ar gael i'w brynu ar-lein)**
- *Ordinary Men: Police Battalion 101* gan Christopher Browning
- *Agency and the Holocaust: Essays in Honor of Debórah Dwork,* Thomas Kühne, a Mary Jane Rein, Mary Jane, gol. (2020)
- *Ordinary workers, Vichy and the Holocaust: French railwaymen and the Second World War* gan Ludivine Broch

@hmd_uk hmd.uk @holocaustmemorialdaytrust



Mwy o wybodaeth...

Ewch i'n gwefan ar gyfer adnoddau ar y thema hon, gan gynnwys straeon bywyd, adnoddau ar nodi Diwrnod Cofio'r Holocost, awgrymiadau ar gyfer darllen pellach a dolenni i sefydliadau tebyg: **hmd.org.uk**

hmd.org.uk
enquiries@hmd.org.uk
020 7785 7029

@hmd_uk
hmd.uk
@holocaustmemorialdaytrust

Dysgu o hil-laddiad – ar gyfer dyfodol gwell